

Cyfarfod	Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion
Dyddiad	16 Chwefror 2017
Teitl	Adolygiad Blynyddol - Polisi Tâl y Cyngor
Pwrpas	Cytuno ar argymhelliad i'r Cyngor llawn
Awdur	Dilwyn Williams - Prif Weithredwr
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Peredur Jenkins

CEFNDIR

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.
2. Pan yn mabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn
3. Yn sgîl hynny ac yn unol â threfniadau sydd wedi'u gweithredu yn y cyfamser, gofynnir i'r Pwyllgor hwn ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2017/18 a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar yr ail o Fawrth eleni.

PRIF SWYDDOGION

4. Ni fu newidiadau i gyfrifoldebau ar lefel Penaethiaid Adran a Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn ystod 2016/17 ac nid oes felly arfarniad o'r newydd wedi'i gynnal ar gyfer 2017/18. Mae cyflogau presennol Prif Swyddogion fodd bynnag wedi'u seilio ar un ai chwarterl isaf neu ganolrif swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Gyhoeddus Cenedlaethol, fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012.
5. Golyga hyn nad yw'r gymhariaeth hefo swyddi o faint cyfatebol yn y Farchnad Sector Gyhoeddus Cenedlaethol wedi'i gynnal fel rhan o adolygu'r Polisi Tal corfforaethol ers pum mlynedd bellach. Mae'n bur debygol felly bod cyflogau Prif Swyddogion yng Ngwynedd wedi gostwng yn is na'r chwarterl isaf a'r canolrif ar gyfer swyddi cyfatebol yn y cyfamser. Awgrymir y bydd yn ofynnol cynnal ymarferiad o'r math er mwyn ystyriaeth gan y Pwyllgor yn Ionawr 2018.

6. Mae'r Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a'r Cyd-Gyngor Trafod Telerau ar gyfer Prif Weithredwyr eisioes wedi cymeradwyo codiad cyflog o 1% y flwyddyn ar gyfer 2017/18, i Brif Swyddogion ac i Brif Weithredwyr ac fe adlewyrchir y codiad hwnnw yn y ffigyrau a ddangosir yn Atodiad 1.

SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

7. Mae'r Cyngor wedi sefydlu ei isafswm cyflog ar sail pwynt 8 o fewn y strwythur tâl cenedlaethol yn dilyn adolygiad o'r Polisi Tâl yn 2015/16 ac hynny mewn ymgais i symud yn agosach at y "Cyflog Byw", yn unol â diffiniad y Sefydliad Cyflog Byw.
8. Yn ei ddatganiad cyllideb ar yr 8fed o Orffennaf, 2015, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ei fod am sefydlu £7.20 yr awr fel y "Cyflog Byw Cenedlaethol" ar gyfer gweithwyr 25 oed a hyn oddi ar y 1af o Ebrill 2016, gyda golwg i gynyddu'r raddfa yr awr honno i, o leiaf, £9 erbyn Ebrill 2020. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd y "Cyflog Byw Cenedlaethol" hwnnw yn cynyddu i £7.50 yr awr oddi ar y 1af o Ebrill, 2017.
9. Fe gofiwch bod y Cyd-Bwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb dwy flynedd yn 2016 sy'n golygu y bydd yna godiad cyflog o 3.2% yn 2017/18 i'r gweithwyr hynny sydd ar y cyflog isaf o fewn y Cyngor gyda phob pwynt cyflog hyd at bwynt 13 yn derbyn codiad cyflog uwch na'r 1% sydd i'w gynnig i weddill y staff. Golyga hyn y bydd pwynt 8 (sef isafswm cyflog y Cyngor) yn £7.90 yr awr (o'i gymharu â £8.45 yr awr adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw) oddi ar y 1af o Ebrill eleni.
10. Yn wyneb y symudiadau cenedlaethol hyn i godi'r cyflogau ar y lefelau isaf yn y strwythur tâl a'r ffaith y bydd y Cyngor yn parhau i orfod adnabod yr arian i gyllido unrhyw gytundeb cenedlaethol, nid oes bwriad i argymhell newid pellach yn lleol i'r isafswm cyflog ar gyfer 2017/18.
11. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal trafodaethau hefo cynrychiolwyr yr undebau cydnabyddedig yn lleol ac yn ymdrechu i geisio sicrhau cytundeb torfol ar becyn fydd yn caniatáu codi'r isafswm cyflog yn agosach fyth at yr hyn adnabyddir fel "Cyflog Byw" gan y Sefydliad Cyflog Byw erbyn Ebrill 2018.

ARGYMHELLIAD

12. Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft (Atodiad 1) i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2017/18.